# Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

**Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 24ain o Fawrth 2021**
**yn Rhithiol am 7.00pm.**

Presennol Cyng J Pierce, Cyng D Jones-Morris, Cyng D W Jones a Cyng B Jones,

Ymddiheuriadau Cyng L A James

Yn absennoldeb y Cadeirydd etholwyd Cyng D W Jones i Gadeirio y cyfarfod

Cod Ymddygiad
Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi

Datgelodd Cyng J Pierce fuddiant dan y penawd Cais am Nawdd gan ei bod yn aelod o Glwb y Garnedd oedd wedi anfon cais i mewn

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 24-02-2021
Cyng B Jones yn cynnig a'r Cyng J Pierce yn eilio eu bod yn gofnodion cywir

Materion yn codi o'r cofnodion
Dim nad oedd wedi ei gynnwys o fewn yr Agenda

Adroddiad Ariannol
Dosbarthwyd taflen ariannol y rhithiol
Yn y cyfrif Cyfredol £21,767.17 a £25,037.19 yn y cyfrif cadw

Archwylwyr Allannol
Dim wedi ei adrodd yn ol

Argymhellwyd talu'r anfonebau a ganlyn
Cyflog Mawrth **£599.84** Treth Incwm Mis Mawrth **£150.00** Delwedd **£431.28**
Cymen Cyfieithu IBC **£392.81** Trydan y Capel **£ 50.87** Llnau cysgodfannau **£1050.00**
Rhys Jones Trydanwr Diffibs **£441.90** Gosod polion y Diffibs **£2160.00**
Torri Gwair Cae Chwarae Caerhun **£295.00** Costau'r Clerc 2020-21 **£388.80**
Hughes Jones Dyson Cyfrifwyr x 3 Cyfrifon 18 - 19 **£360** 19-20 **£360** a cyfloga 19-20 **£168**

Ceisiadau Nawdd
Dosbarthwyd rhestr o'r mudiadau/grwpiau oedd wedi derbyn nawdd hyd yma eleni oedd yn dangos cyfanswm o £3,282.00 sydd yn gadael £1718 yn y swm sydd wedi ei glustnodi ar gyfer Ad 137 sef £5000.00

4 Cais wedi dod i law
- Clwb y Garnedd
- Ysgol Tryfan
- Canolfan Glasinfryn
- Clwb Ioga Glasinfryn

**Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn cyfrannu £300 yr un i'r 4 Cais**

Ychwanegwyd dymuniad yr IBC i glustnodi beth oedd yn weddill i ben y £5K sydd wedi ei glustnodi eto ar gyfer Blwyddyn ariannol 2021-22.
Esboniodd y Clerc fod hawl gan y Cyngor adolygu y swm £5,000 yn flynyddol wrth drefnu y gyllideb a bod yr uchafswm caniateir yn llawer uwch

Prosiectau

I. Prosiect Ysgol Y Faenol Yn absennoldeb Cyng L A James ni chafwyd diweddariad

II. Septic Tanc Glasinfryn Y Clerc wedi siarad hefo W Font ag wedi cael ar ddeallt bydd arno angen dod i fesur lefelau onibai fod A Thomas yn gallu ei cael drwy'r camera. Os na fydd hynny yn bosib bydd angen iddynt gael cyfarfod safle

III. Llnau cysgodfannau - Cysgodfannau i gyd wedi ei llnau yn ogystal a'r ½ cysgodfan yn Rhydygroes . **Gwaith o safon uchel**

**IV.** Wal y Fynwent

Clerc wedi cysylltu a'r Contractwr iddo gychwyn y gwaith ag o bosoib gorffen y gwaith erbyn diwedd y mis

Asesu Risg

Dim diweddariad mis yma

Yswiriant

Dim diweddariad er fod y Clerc wedi anfon manylion at David Palmer yn Come&Company i holi am amcanbris

Telerau y fynwent

Rhanwyd telerau'r Fynwent gan nad oeddant wedi ei adolygu ers 2018

**Gofynnwyd i'r Clerc ddarparu mantolen gwariant a derbynebiadau ar gyfer y fynwent i fedru trafod ymhellach yn y Cyngor Llawn**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15